Adroddiad Llywydd UMCA a Swyddog Materion Cymreig

Dyma adroddiad bras ar fy ngwaith ers dechrau'n swydd gyda sawl llwyddiant. Mae rhan fawr o fy ngwaith yn dal i gylchynu beth oeddwn yn bwriadu ei wneud wrth lunio fy maniffesto gan gynnwys, parhau gydag Ymgyrch Pantycelyn, Hyrwyddo Diwylliant, UMCA sy'n fwy hygyrch a chyd weithio â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn ei ddatblygu. Gweler isod y rhestr:

- Dros yr haf

Fe wnes i fynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Fynwy gyda thîm Marchnata'r Brifysgol

Trefnu a chynnal Noson Raddio UMCA, cyfle i raddedigion rannu profiadau o'u hamser yn Aberystwyth

Cynhadledd Y Talwrn UCM Cymru wedi ei gynnal ym Mhantycelyn, a mynychais Gynhadledd UCM y DU yn Lerpwl gyda gweddill y swyddogion

- Ail brandio UMCA,

Crëwyd logo newydd i UMCA a chynllun Strategaeth marchnata i UMCA. Daeth hwn o ganlyniad i greu mwy o ymwybyddiaeth ac i wneud UMCA yn fwy gweledol a hygyrch.

- Pantycelyn

Parhau i gyd-weithio gyda'r Brifysgol ar ail-agor Pantycelyn. Bellach mae'r cynllun pensaernïol manwl wedi cael ei gyhoeddi, ynghyd ag amserlen o gerrig milltir sy'n rhan o adnewyddu'r neuadd. Nosweithiau diwylliannol pob Nos Fercher bellach yn cael eu cynnal yno hefyd

- Wythnos y Glas

Trefnu Wythnos y Glas hollol annibynnol, noswaith wahanol pob nos megis digwyddiad newydd Porthi'r 5,000 sef noswaith o fwyd. Cynhaliwyd Gig yn yr wythnos gyda dros 100 o bobl yn dod i Gig Wythnos y Glas.

Creuwyd ffurflen i dafarndai i sicrhau yfed cyfrifol yn ystod yr Wythnos y Glas.

- Digwyddiadau eraill -

Wedi trefnu trip Torri Mewn i Dregaron blynyddol a dechrau cynnal Sŵn unwaith y mis,

Y ddawns Ryng-gol - daeth dros 600 o fyfyrwyr o bob rhan o Gymru a phrifysgolion Lloegr am benwythnos llawn gweithgareddau. Ar Nos Wener roedd noson stomp gyda chystadleuaeth farddoniaeth o brifysgolion gwahanol. Bore Sadwrn roedd amryw o chwaraeon gan gynnwys cystadleuaeth Ryng-golegol Rygbi 10-bob-ochr. Nos Sadwrn oedd yr Uchafbwynt gyda gig mawreddog yn yr Undeb

- Gwelwyd twf yn Aelodaeth UMCA eleni. Dwi hefyd wedi gweithio gyda'r Brifysgol ar Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg. Mae'r Lansiad heno a dyna pam nad wyf allu bod yn bresennol, rydym wedi llwyddo i gael aelodaeth am ddim i UMCA sy'n debyg i system optio-i-mewn yr Undeb

- Dros 100 o enwau wedi cael ar gyfer gwersi Cymraeg am ddim UMCA, a 3 tiwtor wedi eu penodi i ddysgu

-Wedi gwneud gwaith cyfansoddiadol megis wedi diddymu Cynrychiolydd blwyddyn Gyntaf i wneud lle ar gyfer Cynrychiolydd Blwyddyn Gyntaf Penbryn a Chynrychiolydd Blwyddyn Gyntaf Fferm Penglais. Bellach llawer mwy o bresenoldeb yn y ddau lety cyfrwng Cymraeg

-Dechrau Tachwedd fe gefais fy enwebu i fod yn gynrychiolydd myfyrwyr ar Grŵp Adolygu Dyfodol Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

-Wedi creu playlist Cymraeg i Subtv sef platfform cerddorol sydd i’w gael mewn Undebau Myfyrwyr o amgylch Ynysoedd Prydain. Hwn yn ehangu a normaleiddio’r Gymraeg yn Aber ac mewn prifysgolion arall

-Argymell sefydlu Gwobrau Dydd Gŵyl Dewi'r Brifysgol i ddathlu myfyrwyr sy’n bencampwr yn y Gymraeg

- Yng nghanol trefnu cinio Nadolig gwahanol megis Gloddest, sef Cinio Nadolig UMCA a Chinio Nadolig Pantycelyn
- Cyd-weithio cryn lawer gyda’r Brifysgol i ddatblygu marchnata ar gyfer myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol
- Cyd-drefnu amryw o ddigwyddiadau Nadolig fel Cyngerdd Nadolig Aelwyd Pantycelyn
- Dechrau Normaleiddio’r Gymraeg yn yr Undeb megis gweithio ar templates i glybiau a chymdeithasau ac i staff
- Datblygu marchnata ar gyfer y Brifysgol.